

Adroddiad 03-20 gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

Rhagfyr 2020



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:

www.senedd.cymru/SeneddSafonau

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Senedd Cymru

Bae Caerdydd

CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **SeneddSafonau@senedd.wales**

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2020

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Adroddiad 03-20 gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

Rhagfyr 2020



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddSafonau

Cadeirydd y Pwyllgor:



Jayne Bryant AS
Llafur Cymru

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Rhun ap Iorwerth AS
Plaid Cymru



Andrew RT Davies AS
Ceidwadwyr Cymreig



David J Rowlands AS
Y Gynghair Annibynnol dros
Ddiwygio*

*Bu David J Rowlands AS yn rhan o'r trafodaethau ar yr adroddiad hwn fel Aelod o Grŵp Plaid Brexit. Daeth ei aelodaeth o'r pwyllgor i ben ar 16 Hydref 2020, pan ymddiswyddodd o'r Grŵp Plaid Brexit. Ar 11 Tachwedd 2020, cafodd David ei ethol yn aelod o'r pwyllgor ar ran Grŵp y Gynghair Annibynnol dros Ddiwygio.

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



Helen Mary Jones AS
Plaid Cymru**

**Bu Helen Mary Jones AS yn rhan o'r trafodaethau ar yr adroddiad hwn fel yr aelod o'r Pwyllgor oedd yn cynrychioli Grŵp Plaid Cymru. Daeth ei haelodaeth o'r Pwyllgor i ben ar 28 Ionawr 2020, pan gafodd Rhun ap Iorwerth AS ei ethol yn aelod newydd o'r Pwyllgor i gynrychioli Grŵp Plaid Cymru.

Cynnwys

Argymhellion	5
1. Cyflwyniad	6
2. Ystyried y gŵyn	8
Y broses o drafod penderfyniad y Pwyllgor	9
Argymhelliad y Pwyllgor - Cosbau posibl.....	11
Atodiad A: Adroddiad gan y Comisiynydd Safonau	13
Atodiad B: Gohebiaeth y Pwyllgor	46

Argymhellion

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell i'r Senedd, yn unol â pharagraff 7.12(vii) o'r Weithdrefn, y canfuwyd methiant i gydymffurfio ac y dylid gwahardd Neil McEvoy AS o drafodion y Senedd am 21 diwrnod calendr. Mae'r Pwyllgor hefyd yn argymhell na fydd gan Neil McEvoy AS yr hawl i gael mynediad i Dŷ Hywel na'r Senedd yn ystod y cyfnod hwn o 21 diwrnod.....Tudalen 12

1. Cyflwyniad

1. Nodir cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau Ymddygiad (y Pwyllgor) yn Rheol Sefydlog 22.¹ Yn unol â'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 22.2, mae'n rhaid i'r Pwyllgor:

“mewn perthynas ag unrhyw gŵyn a gyfeirir ato gan y Comisiynydd Safonau ...ymchwilio i'r gŵyn, cyflwyno adroddiad arni ac, os yw'n briodol, argymhell camau mewn perthynas â hi.”²

2. Lluniwyd yr adroddiad hwn ar gyfer y Senedd yn unol â Rheol Sefydlog 22.9 a pharagraff 8.1 o'r Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau'r Senedd³ (y Weithdrefn) ac mae'n ymwneud â chwyn a wnaed yn erbyn Neil McEvoy AS.

3. Ceir adroddiad y Comisiynydd Safonau (y Comisiynydd) ar ei ymchwiliad i'r gŵyn yn Atodiad A. Mae'n nodi manylion y gŵyn a chanfyddiadau ymchwiliad ffurfiol y Comisiynydd.

4. Mae'r adroddiad hwn yn nodi manylion y gŵyn a'r hyn a ystyriodd y Pwyllgor wrth wneud ei argymhelliad.

5. Cyn ystyried y gŵyn, hysbysodd Helen Mary Jones AS y Pwyllgor ei bod, yn rhinwedd ei swydd gyda Plaid Cymru yn flaenorol, wedi ymwneud â materion mewn cysylltiad â Neil McEvoy AS. Rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor na fyddai hyn yn effeithio ar ei gallu i weithredu'n ddiduedd yn y mater hwn. Nododd y Pwyllgor nad oedd yr amgylchiadau dan sylw yn uniongyrchol gysylltiedig â'r gŵyn hon a chytunodd nad oeddent yn effeithio ar allu'r Aelod i weithredu'n ddiduedd mewn perthynas â'r gŵyn hon.

6. Ar ddechrau'r sesiwn dystiolaeth, gofynnodd Neil McEvoy AS i Helen Mary Jones AS esgusodi ei hun o'r achos, gan nad oedd o'r farn ei bod yn ddiduedd. Nid oedd y rhesymau a roddwyd yn uniongyrchol gysylltiedig â'r gŵyn.

7. Mae Rheol Sefydlog 22.5 yn nodi (ychwanegwyd pwyslais):

“Os bydd aelod o'r pwyllgor cyfrifol yn destun cwyn o dan Reol Sefydlog 22.2(i), neu os bydd wedi'i gysylltu'n uniongyrchol fel arall â chwyn o'r

¹ Rheolau Sefydlog

² Rheol Sefydlog 22.2(i)

³ Gweithdrefn Senedd Cymru ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau'r Senedd

fath, ni chaiff gymryd rhan yn ystyriaeth y pwyllgor cyfrifol ar y gŵyn. O dan amgylchiadau o'r fath, ac mewn perthynas â'r ystyriaeth ar y gŵyn o dan sylw yn unig, caiff yr eilydd a etholwyd yn unol â Rheol Sefydlog 22.4A gymryd lle'r aelod hwnnw. Caiff yr eilydd gymryd rhan yng nghyfarfodydd y pwyllgor cyfrifol i ystyried y gŵyn fel pe bai'n aelod o'r Pwyllgor." (ychwanegwyd pwyslais)

8. Fel y mae'r Rheol Sefydlog yn nodi, nid oes darpariaeth i Aelodau ddewis dirprwy oni bai eu bod yn uniongyrchol gysylltiedig â'r gŵyn. Cytunodd y Pwyllgor, gan nad oedd gan Helen Mary Jones AS gysylltiad uniongyrchol â'r gŵyn, nad oedd unrhyw ofyniad i'w disodli gan eilydd.

2. Ystyried y gŵyn

- 9.** Roedd y gŵyn yn honni bod yr Aelod, Neil McEvoy AS, wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Senedd trwy fod yn ymosodol yn gorfforol ac ar lafar tuag at Aelod arall (Mick Antoniw AS).
- 10.** Ystyriodd y Comisiynydd a oedd yr Aelod dan sylw wedi methu â chydymffurfio â pharagraffau 4(b) a 4(g) o'r Cod Ymddygiad, sy'n nodi:

“Paragraff 4(b) - Uniondeb: Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus roi eu hunain o dan unrhyw rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth arall tuag at unigolion neu gyrff allanol a allai geisio dylanwadu arnynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau swyddogol.

Dylai Aelodau'r Senedd bob amser ymddwyn mewn ffordd a fydd yn cynnal ac yn cryfhau ffydd a hyder y cyhoedd yn unplygrwydd y Senedd ac osgoi unrhyw ymddygiad a fydd yn dwyn gwarth ar y Senedd neu ar ei aelodau'n gyffredinol. Ni ddylai'r Aelodau ofyn i staff Comisiwn y Senedd na staff Llywodraeth Cymru weithredu mewn unrhyw ffordd a allai gyfaddawdu amhleidioldeb gwleidyddol y Gwasanaeth Sifil a/neu staff Comisiwn y Senedd neu wrthdaro â Chod y Gwasanaeth Sifil a/neu God Ymddygiad Staff Comisiwn y Senedd.”

“Paragraff 4(g) - Arweiniad: Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn drwy roi arweiniad a dangos esiampl.”⁴

- 11.** Ystyriodd y Comisiynydd y gŵyn hefyd yng ngoleuni Polisi Urddas a Pharch y Senedd, y cytunwyd arno ar 16 Mai 2018. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i bawb sy'n gweithio yn Senedd Cymru fod â pharch uchel tuag at urddas eraill.
- 12.** Daeth tystiolaeth lafar i law'r Pwyllgor gan Neil McEvoy AS ar 8 Hydref 2019 yn unol â'r ddarpariaeth yn y Weithdrefn.
- 13.** Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, derbyniodd Neil McEvoy AS ei fod, yn ystod y digwyddiad dan sylw, wedi colli ei dymer a bod ei ymddygiad yn ymosodol. Dywedodd ei fod yn difaru ei ymddygiad, ac na fyddai'n cael ei ailadrodd. Amlinellodd i'r Pwyllgor ystod o ffactorau lliniarol y dywedodd eu bod wedi arwain at ei ymddygiad.

⁴ Cod Ymarfer

14. Cyfarfu'r Pwyllgor ddydd Mawrth 24 Medi (i ystyried yr adroddiad gan y Comisiynydd), dydd Mawrth 8 Hydref (i gymryd tystiolaeth gan Neil McEvoy AS), dydd Mawrth 15 Hydref a dydd Mercher 23 Hydref 2019 i ystyried a dod i'w gasgliad mewn perthynas â'r gŵyn hon.

Y broses o drafod penderfyniad y Pwyllgor

15. Trafododd y Pwyllgor y gŵyn yn unol â'i gyfrifoldeb a nodir o dan Reol Sefydlog 22.2 (i).⁵

16. Wrth ystyried a fu achos o dorri'r Cod, adolygodd y Pwyllgor y wybodaeth yn adroddiad y Comisiynydd a barn y Comisiynydd y bu achos o dorri'r Cod, gohebiaeth gan yr Aelod dan sylw, gohebiaeth gan y Comisiynydd, a'r dystiolaeth lafar a gyflwynwyd gan yr Aelod.

17. Mewn gohebiaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, cododd Neil McEvoy AS bryderon nad oedd wedi cael cyfle i gwestiynu cywirdeb adroddiad y Comisiynydd. Cododd y Pwyllgor y pryder hwn gyda'r Comisiynydd, a dywedodd yntau:

“Mae'r Aelod yn honni nad oedd yn gallu herio cywirdeb fy adroddiad. Mae paragraff 24 o'm hadroddiad yn nodi'r cyfleoedd a gafodd Mr McEvoy i herio cywirdeb fy adroddiad. Yn gryno, ysgrifennais at yr Aelod ar 5 Medi, 9 Medi ac 11 Medi yn gofyn iddo naill ai gadarnhau cywirdeb ffeithiol yr adroddiad neu i nodi unrhyw wallau o ran ffeithiau. Ceir copi o fy negeseuon e-bost ac ymatebion yr Aelod yn yr atodiadau i'r adroddiad. Ni nododd yr Aelod unrhyw wallau o ran ffeithiau.”⁶

18. Awgrymodd Neil McEvoy AS hefyd fod nifer o dystion y byddai wedi dymuno iddynt roi tystiolaeth i'r Comisiynydd mewn perthynas â'r ymchwiliad hwn. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Comisiynydd a fyddai'r Aelod wedi gallu nodi unrhyw dystion addas. Atebodd y Comisiynydd:

“Mae'r Aelod yn awgrymu bod yna nifer o dystion sy'n berthnasol i'r achos yn ei farn ef. Mae paragraffau 7, 8 a 9 o fy adroddiad yn cyfeirio at fy ymdrechion i gysylltu â Mr McEvoy yn ystod yr ymchwiliad i'r gŵyn hon. Ysgrifennais at Mr McEvoy or 11 Mehefin i roi gwybod iddo am y gŵyn ac i ofyn am unrhyw sylwadau ganddo. Ymatebodd Mr McEvoy ar 4 Gorffennaf gan ddweud bod gennyf yr holl ffeithiau. Ar 18 Gorffennaf, ysgrifennais at Mr McEvoy eto i roi gwybod iddo am fy mhenderfyniad

⁵ Rheol Sefydlog 22.2(i)

⁶ Gohebiaeth gan y Comisiynydd, 9 Hydref 2019

bod y gŵyn yn dderbyniadwy ac er mwyn rhoi cyfle iddo roi unrhyw sylwadau. Ar 5 Awst, ysgrifennais ato unwaith eto yn gofyn a oedd am wneud unrhyw sylwadau i'm cynorthwyo gyda'm hystyriaethau. Ymateb yr Aelod oedd: 'you now have the facts that you are mandated to investigate...I see no point in wasting more of my time on this.' Mae'r ohebiaeth rhwng yr Aelod a'm swyddfa wedi'u cynnwys yn yr atodiadau i'm hadroddiad. Pe bai Mr McEvoy wedi nodi unrhyw dystion perthnasol eraill ar unrhyw adeg yn ystod yr ymchwiliad, byddwn wedi cymryd tystiolaeth ganddynt."⁷

19. Nododd y Pwyllgor fod Neil McEvoy AS, yn ei dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor, yn anghytuno â chyfrifon yr achwynydd a rhai tystion (y cyfeirir atynt yn adroddiad y Comisiynydd) sy'n nodi iddo godi ddwywaith neu dair yn y Siambr. Fodd bynnag, nid oedd yn anghytuno ei fod wedi mynd at ddesg Mick Antoniw AS. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad yn yr achos hwn nad oedd nifer yr ymweliadau yn berthnasol.

20. Nododd Neil McEvoy AS mewn gohebiaeth â'r Comisiynydd:

"Furthermore, what are the identities of those submitting evidence? It is more than probable that there are interests to declare."

21. Roedd peidio â datgelu enwau tystion yn fater a godwyd eto yn ystod y sesiwn tystiolaeth lafar. Dywedodd Neil McEvoy AS wrth y Pwyllgor hefyd ei bod yn annheg bod datganiadau tystion yn ddiennw. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Comisiynydd wedi nodi yn ei adroddiad ei fod wedi cyfweld â saith tyst, ac nad oedd yr un ohonynt yn Aelodau Senedd. Dywedodd: "each is employed in one capacity or another at the Assembly". Amlygodd hefyd fod y rhannau perthnasol o'r datganiadau gan dystion wedi'u cynnwys, ond bod yr holl dystion wedi nodi nad oeddent yn dymuno i'w henwau na phwy ydynt gael ei ddatgelu. Yn ei eiriau ef, dywedodd: "they do not want any future relationships coloured by this incident".

22. Mae deunydd ffilm o Neil McEvoy AS a Mick Antoniw AS ar deledu cylch cyfyng y tu allan i'r Siambr, ond nid oes deunydd ffilm ohonynt ar deledu cylch cyfyng yn y Siambr. Dywedodd Neil McEvoy AS wrth y Pwyllgor fod y deunydd hwn yn bwrw amheuaeth ar rai o ddatganiadau'r achwynydd a'r tystion. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Comisiynydd wedi dod o hyd i dystiolaeth ddigonol i ategu'r gŵyn heb fod angen dibynnu ar y deunydd ffilm ar y teledu cylch cyfyng o'r digwyddiadau y tu allan i'r Siambr. Darbwyllwyd y Pwyllgor hefyd gan

⁷ Gohebiaeth gan y Comisiynydd, 9 Hydref 2019

gydbwysedd y dystiolaeth ac nid oedd yn teimlo ei bod yn angenrheidiol, nac yn briodol ar sail diogelu data, ac i gadw'r egwyddor bwysig o gyfrinachedd sy'n gynhenid yn y weithdrefn, i edrych ar y deunydd ffilm yn yr achos hwn. Mae'r Pwyllgor yn nodi sylwadau Neil McEvoy AS yn hyn o beth.

23. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi fod Neil McEvoy AS, yn y sesiwn dystiolaeth, wedi derbyn ei fod wedi colli ei dymer yn ystod y digwyddiad dan sylw a bod ei ymddygiad yn ymosodol tuag at Mick Antoniw AS.

Ar ôl adolygu adroddiad y Comisiynydd Safonau a'r dystiolaeth a ddarparwyd, mae'r Pwyllgor o'r farn bod Neil McEvoy AS wedi torri amodau'r Cod Ymddygiad mewn perthynas â pharagraff 4(b) a 4(g) o'r Cod Ymddygiad a'r Polisi Urddas a Pharch.

Argymhelliad y Pwyllgor - Cosbau posibl

24. Mae methiant i gydymffurfio â'r Cod gan unrhyw Aelod o'r Senedd yn fater difrifol ym marn y Pwyllgor. Mae enw da Senedd Cymru, a ffydd a hyder y cyhoedd yn y sefydliad, yn dibynnu ar allu'r Aelodau i ddangos uniondeb ac arweiniad yn eu gweithredoedd.

25. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod hyn yn achos difrifol o dorri'r Cod Ymddygiad. Nid yw bod yn ymosodol yn gorfforol ac ar lafar i unigolyn arall yn dderbyniol mewn unrhyw sefyllfa, ond mae hyn yn arbennig o wir yn achos rhai sydd i fod i arwain trwy esiampl. Roedd y trallod amlwg yr oedd y digwyddiad hwn wedi'i achosi i nifer o aelodau staff yn destun pryder penodol i'r Pwyllgor. Mae gan bawb hawl i deimlo'n ddiogel yn eu gweithle ac yn yr achos hwn ni ddigwyddodd hynny.

26. Er bod y gŵyn hon yn ymdrin ag un digwyddiad ar ei ben ei hun ac na ellid ei ddisgrifio fel "ymddygiad parhaus"⁸, roedd yn dangos dirmyg amlwg at gydweithwyr y Senedd - yn y maes gwleidyddol ac i'r rhai sy'n cael eu cyflogi ar ystâd y Senedd.

27. Rydym yn fodlon nad oedd hwn yn achos bwriadol o dorri'r Cod Ymddygiad, ac rydym hefyd yn nodi'r ffactorau lliniarol a amlinellwyd gan yr Aelod.

28. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried y dystiolaeth liniarol a ddarparwyd gan Neil McEvoy AS wrth ddod i'w benderfyniad.

⁸ Y Weithdrefn, paragraff 7.13

29. Wrth ddod i'w gasgliad, nododd y Pwyllgor mai hwn oedd yr eildro i'r Aelod fod yn destun adroddiad cwyn o dan Reol Sefydlog 22.2, ond cytunodd mai prin oedd perthnasedd y gŵyn gyntaf yn yr achos hwn ac na ddylai fod yn rhan o'r ystyriaeth o'r gŵyn bresennol.

30. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad fod hwn yn achos difrifol o dorri'r cod ymddygiad, ac felly y dylid argymhell sancsiwn. Wrth gytuno ar y sancsiwn, ystyriodd y Pwyllgor y ffactorau lliniarol y cyfeiriwyd atynt ym mahagraff 7.13 o'r Weithdrefn a daethpwyd i benderfyniad unfrydol.

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell i'r Senedd, yn unol â pharagraff 7.12(vii) o'r Weithdrefn, y canfuwyd methiant i gydymffurfio ac y dylid gwahardd Neil McEvoy AS o drafodion y Senedd am 21 diwrnod calendr. Mae'r Pwyllgor hefyd yn argymhell na fydd gan Neil McEvoy AS yr hawl i gael mynediad i Dŷ Hywel na'r Senedd yn ystod y cyfnod hwn o 21 diwrnod.

31. Darparwyd copi o'r adroddiad hwn i'r Aelod dan sylw, a chafodd wybod hefyd am ei hawl i apelio o dan adran 8 o'r Weithdrefn. Apeliodd yr Aelod dan sylw ar 23 Hydref 2019. Yn unol â'r weithdrefn hon, penododd y Llywydd berson annibynnol sydd â chymwyster yn y gyfraith (Syr John Griffith Williams QC) i ystyried yr apêl. Gwrthododd Syr John Griffith Williams QC yr apêl ar 29 Ebrill 2020, a gosodwyd copi o'i adroddiad, sy'n nodi ei resymau, ar 2 Rhagfyr 2020.

32. Mae Cadeirydd y Pwyllgor wedi cyflwyno cynnig (yn unol â Rheol Sefydlog 22.11 a pharagraff 9.1 o'r Weithdrefn) yn galw ar y Senedd i gymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor.

Atodiad A: Adroddiad gan y Comisiynydd Safonau

CYFRINACHOL

Oddi wrth: Syr Roderick Evans, y Comisiynydd Safonau

At: Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

ADRODDIAD AR YMCHWILIAD FFURFIOL

Neil McEvoy AC

Y gŵyn

1. Ar 22 Mai 2019 cefais gŵyn gan Mick Antoniwr AC am ymddygiad Neil McEvoy AC. Atodaf fel Atodiad 1 y llythyr gan Mr Antoniwr y gwnaed y gŵyn ynddo. Mae trydedd dudalen y llythyr wedi'i golygu i ddileu enw'r tyst y cyfeiriwyd ato gan nad yw'r tyst am gael ei adnabod yn gyhoeddus.
2. Yn fyr, y gŵyn yw bod Mr McEvoy wedi mynd at Mr Antoniwr tra oedd ar ei ffordd drwy'r Cwrt i'r Siambr, ddydd Mawrth 21 Mai 2019, a bod Mr McEvoy wedi ymddwyn yn ymosodol, yn gorfforol ac ar lafar, tuag at Mr Antoniwr. Parhaodd yr ymddygiad hwn pan roedd y ddau ddyn yn y Siambr a digwyddodd y cyfan o flaen nifer o dystion.

Yr Ymchwiliad

3. Ar ôl i'r gŵyn ddod i law, gwnaed ymholiadau gan [REDACTED], Ymchwilydd a Rheolwr Prosiect sy'n gweithio yn fy swyddfa, er mwyn cadarnhau manylion y digwyddiad y cyfeirir ato yn nhrydydd paragraff y llythyr gan Mr Antoniwr, a allai, ym marn Mr Antoniwr, fod wedi sbarduno'r hyn a ddigwyddodd ar 21 Mai.
4. Daethpwyd o hyd i'r digwyddiad mewn dadl yn y Cyfarfod Llawn y dydd Mercher blaenorol, 15 Mai, pan drafodwyd adroddiad yn ymwneud â'r Comisiynydd Cynaliadwyedd. Cyfrannodd Mr Antoniwr at y ddadl a phan eisteddodd ymatebodd y Gweinidog, Jane Hutt AC. Wrth iddi wneud hynny, gellir gweld a chlywed Mr McEvoy yn gwneud sylwadau er nad yw'r hyn yr oedd yn ei ddweud yn eglur. Pan gyfwelais â Mr Antoniwr am y digwyddiad hwn ar 18 Gorffennaf, dywedodd wrthyf ei fod yn cofio i Mr McEvoy ddweud rhywbeth i'r perwyl bod y Comisiynydd Cynaliadwyedd yn "just another corrupt Labour placeman". Beth bynnag yr oedd Mr McEvoy yn ei ddweud, mae'n ymddangos bod ymateb y Gweinidog yn anniddig. Wrth i Mr McEvoy wneud sylwadau yn y modd hwn, dywedodd Mr Antoniwr wrtho:

"You are just a convicted bully, aren't you?"

Gellir gweld recordiad o'r digwyddiad yn:

<https://www.senedd.tv/Meeting/Clip/22f8407f-70fd-4a42-8431-c6ff94f4d523?inPoint=02:20:09&outPoint=02:22:50>

Nid wyf yn gwneud unrhyw sylw ar briodoldeb sylwadau'r naill Aelod na'r llall ar eu heistedd gan nad yw'r hyn sy'n digwydd yn y Cyfarfod Llawn yn fater i mi.

5. O ran y digwyddiad ei hun, mae Mr Antoniwi wedi dweud wrthyf fod y bygythiad "I will get you" wedi peri cryn bryder iddo.
6. Bu [REDACTED] hefyd yn cyfweld â nifer o dystion a oedd yn bresennol yn ystod y digwyddiad y gwnaed y gŵyn yn ei gylch, gan nodi eu sylwadau cychwynnol. Gwelodd tystion wahanol rannau o'r digwyddiad; gwelodd rhai beth ddigwyddodd yn y Cwrt, ac eraill beth ddigwyddodd yn y Siambr. Gwelodd rhai fwy nag eraill a gwelodd rhai lai nag eraill. Roedd y manylion yr oedd modd i'r tystion eu rhoi yn amrywio. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gyfrif yn anghyson â'r cyfrif a roddwyd gan Mr Antoniwi yn ei lythyr dyddiedig 22 Mai.
7. Ar 11 Mehefin 2019, ysgrifennais at Mr McEvoy i roi gwybod iddo am y gŵyn a gofyn am sylwadau ganddo. Ar y pryd, nid oeddwn wedi gofyn am ganiatâd David Melding AC i ddatgelu'r rhannau hynny o'r llythyr a oedd yn cynnwys y negeseuon e-bost a anfonwyd ato a'r rhai a anfonwyd ganddo. Yn ddiweddarach, anfonwyd copi o'r llythyr yn cynnwys y rhannau hynny at Mr McEvoy. Atodaf gopi o'r llythyr hwnnw fel Atodiad 2.
8. Atodiad 3 yw ymateb Mr McEvoy dyddiedig 4 Gorffennaf. Yn ei lythyr, mae'n dweud bod yr holl ffeithiau gennyf, a chymerais fod hynny'n golygu nad oedd yn anghytuno â'r cyfrif a roddwyd yn llythyr Mr Antoniwi dyddiedig 22 Mai; mae'n cyfeirio at y digwyddiad ar 15 Mai pan alwodd Mr Antoniwi ef yn "convicted bully" a dywedodd na fyddai'n gwneud unrhyw sylwadau pellach.
9. Ar 18 Gorffennaf, ysgrifennais at Mr McEvoy i roi gwybod iddo fy mod wedi penderfynu bod y gŵyn yn dderbyniadwy ac i roi cyfle iddo wneud sylwadau pellach, er iddo nodi'n gynharach na fyddai'n gwneud hynny. Y llythyr hwnnw yw Atodiad 4. Yna, cafwyd y gyfres o negeseuon e-bost rhwng fy swyddfa a Mr McEvoy a nodir yn Atodiad 5. Ar 5 Awst, ysgrifennais at Mr McEvoy (Atodiad 6) yn nodi, yn unol â'i gais, y rheolau y gallai fod wedi'u torri ac atebodd ar 7 Awst. Ei ateb yw Atodiad 7.
10. Yn ystod yr ymchwiliad a gynhaliwyd gennyf i'r gŵyn hon, cyfwelais â saith o'r tystion a gyfwelwyd yn gynharach gan [REDACTED]. Disgrifiodd un tyst y digwyddiad yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Mai; disgrifiodd y chwech arall y digwyddiad ar 21 Mai. Dyma'r tystion a roddodd y sylwadau cychwynnol mwyaf manwl ac nid oes yr un ohonynt yn Aelod Cynulliad; mae pob un ohonynt wedi'i gyflogi mewn un ffordd neu'r llall ar ystâd y Cynulliad. Mae'r tystion hyn wedi darparu datganiadau wedi'u llofnodi i mi lle mae pob un ohonynt yn nodi ei atgof ef neu hi o'r digwyddiad y mae Mr Antoniwi yn cwyno amdano. Fodd bynnag, mae pob un wedi nodi nad ydyw am i'w enw neu ei henw fod yn gyhoeddus na'n hysbys i Mr McEvoy gan ei bod yn anochel y byddant yn dod i

gysylltiad ag ef yn y dyfodol, yn sgil eu cyflogaeth, ac nid ydynt am i'r digwyddiad hwn effeithio ar eu perthnasoedd yn y dyfodol.

11. Mae'r datganiadau a roddwyd i mi, yn ogystal â chynnwys enwau'r tystion, hefyd yn cynnwys disgrifiad o'r dasg neu'r rôl yr oedd pob un yn ei chyflawni ar adeg y digwyddiad. Mae'n bosibl y gellir adnabod y tystion o'r disgrifiadau hyn ac yn unol â hynny, nid wyf yn atodi unrhyw un o'r datganiadau hyn i'r adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae'r holl ddatganiadau ar gael i aelodau'r pwyllgor eu darllen os byddant yn dymuno gwneud hynny. Nodaf isod rannau o ddatganiadau'r tystion hyn, gan gyfeirio atynt yn ôl rhifau.
12. Digwyddodd y digwyddiad ar 21 Mai ychydig ar ôl 13.15 wrth i'r Aelodau a'u staff baratoi ar gyfer y Cyfarfod Llawn. Roedd Tyst 1 yn y Cwrt a gwelodd Mr Antoniwi a Mr McEvoy yn mynd at y Siambr. Dywedodd:

“Roedd Neil McEvoy yn cerdded yn agos iawn y tu ôl i Mick Antoniwi, yn cadw i fyny ag ef. Roedd Neil McEvoy yn siarad yn uchel ac yn ymosodol ac yn pwyntio ei fys at Mick Antoniwi, gan ddweud “What are you going to do about it?”

Yna, dywedodd Neil McEvoy, “You are tough in the group but you're spineless on your own.”

Y cwbl a ddywedodd Mick Antoniwi oedd, “Don't talk to me or I will report you to standards.” Dywedodd hynny ddwywaith, efallai deirgwaith, ac nid oedd yn ymosodol. Roedd yn ceisio osgoi'r gwrthdaro ond roedd Neil McEvoy yn wyneb Mick Antoniwi.

Yna, parhaodd NM i ddweud bod MA yn ddi-asgwrn cefn ac atebodd MA yr un fath ag o'r blaen, “Don't talk to me or I will report you to standards.”

Ces i fy synnu a chefais sioc o weld ymddygiad Neil McEvoy am nad ydych chi'n gweld y fath yna o ymddygiad yn y Cynulliad. Rwyf wedi gweithio yn y Cynulliad ers 11 mlynedd a heb weld Aelod yn ymddwyn felly erioed o'r blaen. Pe bawn i wedi gweld y fath ymddygiad y tu allan i'r Cynulliad, mewn tafarn er enghraifft, byddwn i wedi disgwyl i Neil McEvoy droi'n dreisgar.

Yna, cerddodd y ddau i mewn i'r Siambr.”

13. Roedd Tyst 2 yn yr Oriel Gyhoeddus a dyma a welodd yn y Siambr isod:

“Roedd Mr Antoniwi yn eistedd tra bod Mr McEvoy yn cerdded yn ôl ac ymlaen, wedi'i gynhyrfu, rhwng sedd Mr Antoniwi a'i sedd ei hun. Roedd Mr McEvoy yn siarad yn uchel ond nid ydw i'n cofio clywed Mr Antoniwi yn codi ei lais. Yna, eisteddodd Mr McEvoy wrth ei ddesg a dywedodd rhywbeth tebyg i: “You can apologise for that, that was disgusting behaviour!” ac roedd e'n pwyntio'n ymosodol at Mr Antoniwi. Yna, aeth Mr McEvoy draw at sedd Mr Antoniwi, gan ddweud rhywbeth tebyg eto. Roedd yn ymddangos fel petai Mr Antoniwi yn gwingo rhywfaint yn ei gadair pan ddaeth Mr McEvoy yn

eithaf agos ato. Yna, mwmiodd Mr McEvoy rywbeth na allwn i ei glywed cyn mynd yn ôl i'w sedd.

Ni fuasai wedi bod yn brofiad dymunol i Mr Antoniwi. Nid oedd e'n ymosodol, ond roedd Mr McEvoy yn ymosodol. Roedd hi'n edrych fel petai'n ymdrech iddo beidio â chynhyrfu. Nid oeddwn i'n gwybod beth fyddai'n ei wneud nesaf. Roedd hi'n edrych i mi fel y gallasai'r digwyddiad arwain at rywbeth gwaeth. Arhosais tan fod Mr McEvoy wedi eistedd oherwydd doeddwn i ddim yn siŵr i ble'r oedd pethau'n mynd.”

14. Roedd Tyst 3 yn y Siambr a gwelodd y ddau ddyn yn dod i mewn.

“Roedd Neil McEvoy yn ymddwyn mewn modd ymosodol iawn tuag at Mick Antoniwi. Aeth Mick Antoniwi i'w sedd. I ddechrau, roedd Neil McEvoy yn sefyll yn gweiddi at Mick Antoniwi. Yna, eisteddodd Neil, ond roedd e'n codi ac eistedd ac yna aeth draw at Mick.

Roedd Neil McEvoy wedi gwylltio ac roedd e'n galw Mick Antoniwi yn fwli, a defnyddiodd y gair “sick” sawl gwaith. Gwelais fod Neil allan o'i sedd ac yn pwyntio yn wyneb Mick. Nid oedd e'n poeni, yn ôl pob golwg, ble roedd e na phwy oedd yno i'w weld. Roeddwn i'n eistedd gyferbyn â Mick ar ôl y digwyddiad ac roedd yn amlwg i mi ei fod wedi'i ysgwyd gan yr hyn ddigwyddodd.

Nid oedd Mick yn ymosodol ac ni wnaeth dim o gwbl i gynhyrfu'r sefyllfa. Clywais i e'n dweud wrth Neil, “Leave me alone.”

Mae'n rhaid i mi fod yn onest a dweud ei fod e'n frawychus tystio'r fath ddigwyddiad. Nid oedd Neil McEvoy yn gallu rheoli ei dymer. Roedd e'n fygythiol iawn, yn swnllyd ac yn galw enwau.”

15. Roedd Tyst 4 hefyd yn y Siambr a gwelodd y ddau ddyn yn dod i mewn.

“Roedd Mick Antoniwi ar y blaen ac roedd Neil McEvoy yn agos iawn, iawn y tu ôl iddo. Roedd Neil llawer yn agosach at Mick nag sy'n arferol. Roedd Neil yn ddig ac ymosodol iawn a chlywais i e'n dweud wrth Mick, ‘I've heard about you, bullying people when they are on their own' a hefyd, ‘You can't say things like that about me on the floor’.

Roedd Mick yn ymddangos yn bwyllog ond yn anghyfforddus iawn gydag ymddygiad Neil. Roedd yn gwrtais, a gofynnodd yn gadarn ond yn gwrtais i Neil adael llonydd iddo. Clywais Mick yn dweud wrth Neil fwy nag unwaith, 'Kindly move away'. Ni chynhyrfodd Mick ac ni chododd ei lais yn ystod y digwyddiad.

Yna, eisteddodd y ddau Aelod (Neil ar y chwith a Mick ar y dde), ond cododd Neil o'i sedd ddwywaith neu deirgwaith ac aeth draw i'r man lle'r oedd Mick yn eistedd i sefyll uwch ei ben yn siarad mewn tŷn fygythiol iawn, gan bwyntio ei fys yn ymosodol at Mick wrth gyhuddo Mick o fod yn fwli. Nid wyf yn siŵr a wnaeth e gyffwrdd â Mick, ond roedd yn agos iawn ato. Nid oedd Mick yn ymosodol.

.....

Roeddwn i rhwng dau feddwl a ddylwn i ofyn i'r staff Diogelwch ddod i mewn i'r Siambr, gan ei fod yn edrych fel y gallai pethau waethygu.

Roedd Mick yn dal yn bwylllog, ond gallwn i weld ei fod wedi'i gynhyrfu ac wedi ei ysgwyd gan yr holl beth. Roedd Neil wedi gwylltio. Ni fyddai ymddygiad Neil wedi bod yn briodol mewn cyd-destun cymdeithasol ond yn y Senedd roedd yn hollol annerbyniol. Roedd yn croesi'r llinell ar sawl lefel.

16. Roedd Tyst 5 yn y Siambr a, chyn i Mr Antoniwn a Mr McEvoy ddod i mewn, roedd wedi tynnu sylw at faint o bobl oedd yn yr oriel gyhoeddus.

“Daeth yn amlwg yn fuan fod hon yn ddadl unochrog, wresog iawn. Roedd Neil yn siarad yn uchel; roedd e'n eithaf swnllyd a bygythiol. Roedd yn gandryll ac yn ddig iawn, iawn. Roedd Neil yn cyhuddo Mick o fod yn fwli, gan ddweud ei fod wedi clywed amdano a sut mae e'n bwlio pobl pan maen nhw ar eu pennau eu hunain. Roedd Mick yn gofyn i Neil adael llonydd iddo, a dywedodd hyn sawl tro wrth iddo eistedd yn ei sedd yn y Siambr. Yna, aeth Neil i eistedd yn ei sedd ei hun.

Ychydig funudau'n ddiweddarach, fe gododd Neil eto, ac aeth draw at Mick i barhau â'i ddadl wresog. Fe alwodd Mick yn fwli eto a dweud ei fod yn “sick” ac, er nad ydwn i'n hollol siŵr beth yn union a ddywedodd, soniodd e am rywbeth a gafodd ei ddweud mewn cyfarfod blaenorol. Roedd yn procio ei fys yn agos iawn at ysgwydd Mick ond, oherwydd yr ongl, ni allwn weld a oedd wedi cyffwrdd â Mick, ond os na, byddai wedi bod yn agos iawn.

Nid ymatebodd Mick i ymddygiad ymosodol Neil. Pe bai wedi gwneud hynny, gallai pethau fod wedi bod yn llawer gwaeth. Roedd yn edrych fel petai Neil yn mynd i daro Mick. Nid wyf erioed wedi gweld unrhyw un mor ddig. Daeth y digwyddiad i ben am ei bod hi'n edrych fel petai Neil wedi rhedeg allan o stêm.

.....

Roeddwn i'n teimlo'n anghyffyrddus iawn tra oedd hyn yn digwydd gan na welais i'r fath ymddygiad erioed o'r blaen yn unman ar draws y Cynulliad, ond yn enwedig yn y Siambr gyhoeddus. Gan fod hwn yn fater rhwng yr Aelodau, nid oedd neb yn teimlo y gallent gamu i mewn a helpu Mick. Mae'n bosibl y byddai hynny wedi gwneud pethau'n waeth.

Rwy'n teimlo bod angen gwneud rhywbeth gan fod hwn yn ddigwyddiad eithaf difrifol o ymddygiad ymosodol corfforol a geiriol.

Cyn gynted ag y dechreuodd y Cyfarfod Llawn, es allan i siarad â'r staff Diogelwch yn y Cwrt i'w rhybuddio am yr hyn oedd wedi digwydd. Llwyddais i ddal [REDACTED] hefyd i roi gwybod iddo.

Roedd y digwyddiad yn chwarae ar fy meddwl drwy'r dydd wedyn a byddwn i a'r tîm yn troi'n aml i siarad amdano. Roedd yn beth annymunol i'w weld.”

17. Roedd y chweched tyst a'r olaf yn y Siambr a dyma a welodd:

“Cerddodd Neil McEvoy AC i mewn i’r Siambr gyda Mick Antoniw AC. Roedd Neil yn ddig iawn; roedd yn hollol gandryll ac roedd yn gweiddi ar Mick. Roedd yn uchel iawn. Roedd yn ddifrifol.

Roedd Mick yn ceisio eistedd a dywedodd wrth Neil i bwylllo. Gwnaeth hynny gorddi Neil yn ôl pob golwg. Roedd Neil yn gweiddi ar Mick. Doeddwn i ddim yn siŵr beth roedden nhw’n ei drafod ond clywais Neil yn galw Mick yn “sick” ac yn fwli, a dywedodd na allai Mick ddweud hynny am rywun. Roedd Neil mor ddig fel nad oedd yn poeni ei fod yn y Siambr ac roedd yr oriel gyhoeddus ar agor ac roedd ein Prif Weithredwr yn yr ystafell hefyd.

Eisteddodd Mick a Neil yn eu lleoedd, ond cododd Neil eto ac aeth draw at Mick ac roedd yn pwyso drosto. Gwaeddodd eto ar Mick. Aeth Neil yn ôl i’w sedd, ond yna cododd a gwneud yr un peth eto. Rhwng popeth, gwnaeth Neil hyn tua thair gwaith.

Roedd hyn i gyd yn unochrog. Roedd yn ymddangos bod Mick wedi cynhyrfu a bod y digwyddiad yn codi cywilydd arno, ac roedd e’n ailadrodd “Enough. Enough.” Roedd yn ceisio gwneud yn fach o’r sefyllfa ac yn ceisio anwybyddu Neil drwy siarad â David Rees a oedd yn eistedd o’i flaen. Drwyddi draw, roedd Neil yn ymosodol ac yn swnllyd iawn.

.....

Roeddwn i’n teimlo’n hynod anghyffyrddus yn ystod y sgwrs hon, ac er fy mod i wedi gweithio yn y Cynulliad ers 15 mlynedd, dyma’r tro cyntaf i mi fod yn y fath sefyllfa. Roeddwn i’n teimlo’n flin dros Mick gan fy mod i’n teimlo fod y digwyddiad gyda Neil yn codi cywilydd arno ac roedd e’n edrych yn bryderus hefyd.

Gallwn i ddim â chredu beth oedd wedi digwydd. Roedd yn anghredadwy. Dydw i erioed wedi gweld Aelod yn ymddwyn fel hyn o’r blaen. Roedd fel gwyllo dechrau rhyw helynt mewn tafarn. Mae angen i Neil ddeall nad yw’n gallu ymddwyn felly.

Roeddwn i’n meddwl bod y ffræ wedi dechrau’r tu allan i’r Siambr y diwrnod hwnnw gan fod Neil mor ddig. Clywais y gallai’r anghytundeb fod wedi deillio o rywbeth a gafodd ei ddweud yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos flaenorol. Os yw hynny’n wir, mae hyd yn oed yn fwy brawychus gan ei fod yn syndod fod Neil dal mor ddig.

Roedd [Tyst 5] a minnau mor bryderus am y digwyddiad nes i’r ddau ohonom siarad â’r Pennaeth Diogelwch amdano wedyn.”

Y ffeithiau a ganfuwyd gan y Comisiynydd

18. Rydw i’n canfod:

- (i) Y bu digwyddiad ar 21 Mai fel y disgrifiwyd gan Mick Antoniw a’r chwe thyst y dyfynnir eu sylwadau uchod;
- (ii) Bod Neil McEvoy, yn ystod y digwyddiad hwnnw, wedi ymddwyn mewn ffordd fygythiol a brawychus tuag at Mick Antoniw a bod ei ymddygiad yn ymosodol yn gorfforol ac yn eiriol wrth wneud hynny;
- (iii) Bod y digwyddiad ar 21 Mai yn deillio o’r sylwadau a wnaed gan y ddau ddyn yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Mai.

Casgliadau

19. Mewn unrhyw sefydliad y mae pobl yn gweithio ynddo, mae'n anochel y bydd tensiynau rhwng pobl a gall hynny fod yn arbennig o wir mewn sefydliad, fel y Cynulliad Cenedlaethol, lle y mae gan bobl safbwyntiau gwahanol y maent yn teimlo'n gryf ac yn angerddol amdanynt. Fodd bynnag, rwyf wedi fy modloni yr aeth ymddygiad Mr McEvoy ar 21 Mai ymhell y tu hwnt i'r hyn a fyddai'n fynegiant derbyniol o densiwn rhyngersonol. Mae disgrifiadau o'i ymddygiad yn dangos lefel o ymddygiad ymosodol na fyddai'n dderbyniol mewn safle trwyddedig heb sôn am yn y Cynulliad Cenedlaethol o flaen aelodau staff ac aelodau'r cyhoedd. Rwy'n cydnabod bod dicter Mr McEvoy wedi deillio o sylwadau Mr Antoniwi yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Mai ond ni fyddai'r sylwadau hynny wedi cyfiawnhau ymddygiad Mr McEvoy pe bai wedi digwydd ar y diwrnod y gwnaed y sylwadau, heb sôn am wythnos yn ddiweddarach.
20. Mae'r saith egwyddor gyffredinol ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus a nodir ym mharagraff 4 o'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau bob amser ymddwyn mewn ffordd a fydd yn cynnal a chryfhau ffydd a hyder y cyhoedd yn unplygrwydd y Cynulliad ac osgoi unrhyw ymddygiad a fydd yn dwyn gwarth ar y Cynulliad neu ar ei Aelodau'n gyffredinol (Paragraff 4b). Dylai Aelodau hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn drwy roi arweiniad a dangos esiampl (Paragraff 4g). Drwy ei ymddygiad tuag at Mr Antoniwi ar 21 Mai, methodd Mr McEvoy ag ymddwyn mewn ffordd a fyddai'n cynnal ac yn cryfhau ffydd a hyder y cyhoedd yn unplygrwydd y Cynulliad a gwnaeth ymddwyn mewn ffordd a fyddai'n dwyn gwarth ar y Cynulliad. Methodd hefyd â hyrwyddo a chefnogi, drwy roi arweiniad a dangos esiampl, yr egwyddorion mewn perthynas ag ymddygiad pobl mewn bywyd cyhoeddus.
21. Yn unol â'r Polisi Urddas a Pharch a fabwysiadwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol, mae'n ofynnol i bawb sy'n gweithio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ddangos lefel uchel o barch at urddas eraill. Mae ymddygiad brawychus a bygythiol Mr McEvoy yn torri'r polisi hwn.
22. Felly, rwy'n dod i'r casgliad bod Mr McEvoy wedi torri'r Cod Ymddygiad a Pholisi Urddas a Pharch y Cynulliad ac y dylai'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad ymdrin â'i achos yn unol â Rheol Sefydlog 22.2.

Gofynion o dan y Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion

23. Nid yw'r gŵyn hon yn codi unrhyw faterion o egwyddor gyffredinol.
24. Rwy'n cadarnhau bod yr achwynydd a'r Aelod y gwnaed y gŵyn amdano wedi cael drafft o'r adroddiad hwn ac wedi cael cyfle i wneud sylwadau ar ei gywirdeb ffeithiol. Ni nododd yr achwynydd unrhyw anghywirdeb ffeithiol. Anfonais y drafft at Mr McEvoy ar 5 Medi 2019. Y llythyr eglurhaol a anfonwyd gennyf yw Atodiad 8. Atebodd Mr McEvoy drwy e-bost y diwrnod wedyn yn gofyn i gael gweld recordiad teledu cylch cyfyng. Ei neges e-bost yw Atodiad 9. Atebais ar 9 Medi yn egluro'r

sefyllfa mewn perthynas â recordiad teledu cylch cyfyng a gofyn iddo unwaith eto ystyried cywirdeb ffeithiol yr adroddiad drafft yr oeddwn wedi'i anfon ato a gofynnais iddo naill ai gadarnhau ei gywirdeb ffeithiol neu dynnu sylw at unrhyw wallau ffeithiol a nodwyd ganddo. Y llythyr hwnnw yw Atodiad 10. Atebodd Mr McEvoy ar 11 Medi drwy e-bost. Ei neges e-bost yw Atodiad 11. Atebais ar 13 Medi a fy ateb yw Atodiad 12.

Nid yw Mr McEvoy wedi nodi unrhyw anghywirdeb ffeithiol yn yr adroddiad ac, felly, rwy'n ei gyflwyno i'r Pwyllgor.

Atodiadau

25. Rwy'n atodi'r dogfennau a ganlyn i'r adroddiad hwn:

- (i) Llythyr yn gwneud cwyn gan Mick Antoniw AC dyddiedig 22 Mai 2019
- (ii) Llythyr dyddiedig 11 Mehefin 2019 oddi wrthyf at Neil McEvoy AC
- (iii) Neges e-bost dyddiedig 4 Gorffennaf 2019 oddi wrth Neil McEvoy AC ataf i
- (iv) Llythyr dyddiedig 18 Gorffennaf 2019 oddi wrthyf at Neil McEvoy AC
- (v) Cyfres o negeseuon e-bost rhwng Neil McEvoy AC a fy swyddfa
- (vi) Llythyr dyddiedig 5 Awst 2019 oddi wrthyf at Neil McEvoy AC
- (vii) Neges e-bost dyddiedig 7 Awst 2019 oddi wrth Neil McEvoy AC ataf i
- (viii) Llythyr eglurhaol dyddiedig 5 Medi 2019 oddi wrthyf i at Neil McEvoy
- (ix) Neges e-bost dyddiedig 6 Medi 2019 oddi wrth Neil McEvoy AC ataf i
- (ix) Llythyr dyddiedig 9 Medi 2019 oddi wrthyf i at Neil McEvoy AC
- (x) Neges e-bost dyddiedig 11 Medi 2019 oddi wrth Neil McEvoy AC ataf i
- (xi) Llythyr dyddiedig 13 Medi 2019 oddi wrthyf i at Neil McEvoy AC

Syr Roderick Evans

16 Medi 2019



Commissioner for Standards
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA

22 May 2019

Dear Commissioner

I wish to report an incident which occurred on 21st May 2019 at approximately 1.20 pm

I came from Ty Hywel from the canteen and walked to the lift chatting to David Melding AM. We went down the lift together and towards the security door heading towards the Siambr. Neil McEvoy AM was ahead of us, turned round and came towards me in an aggressive manner and raised voice insulting me and saying something about how dare I call him a bully.

